

Diwygio Hyderus o Ran Anabledd

Cynllun Cyflawni

Rhagfyr 2025 - Rhagfyr 2026

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Cynnig ar gyfer y polisi	3
Amcanion allweddol	3
Canlyniadau bwriadedig	3
Sut beth yw llwyddiant	3
Cyd-destun strategol	5
Datganiad problemus	5
Y sail dystiolaeth	5
Cysoni â'r llywodraeth	5
Amcanion a Mesurau Llwyddiant	6
Amcanion	6
Metrigau llwyddiant	6
Dull cyflwyno	7
Camau a Cherrig Milltir	7
Dibyniaethau	7
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	8
Gyda phwy y byddwn yn gweithio	8
Diben ymgysylltu	8
Dull gweithredu	8
Canlyniad Disgwyliedig	8
Risgiau a Mesurau Lliniaru	9
Strategaeth Gyfathrebu	10
Diben	10
Amcanion	10
Cynulleidfaoedd Allweddol	10
Sianeli	10
Amseriad	10

Crynodeb Gweithredol

Cynnig ar gyfer y polisi

Mae'r cynllun cyflawni hwn yn nodi'r cam diwygio nesaf ar gyfer y cynllun Hyderus o Ran Anabledd. Ein huchelgais yw sefydlu fframwaith cynhwysol ac atebol a gydnabyddir yn genedlaethol sy'n galluogi cyflogwyr i recriwtio, cadw a chefnogi pobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor yn hyderus.

Bydd y cynllun diwygiedig yn cyflwyno safonau clir, tryloywder gwell a disgwyliadau ar gyfer gwelliant parhaus, gan sicrhau bod pob lefel o aelodaeth yn adlewyrchu camau gweithredu ystyrlon yn hytrach na chydymffurfiaeth yn unig. Drwy ymgorffori cydweithredu, atebolrwydd a phrofiad uniongyrchol wrth wraidd y broses gyflawni, bydd y cynllun yn ysgogi newid diwylliannol, yn lleihau rhwystrau ac yn hyrwyddo cydraddoldeb mewn gweithleoedd.

Drwy'r diwygiadau hyn, bydd Hyderus o Ran Anabledd yn symud y tu hwnt i godi ymwybyddiaeth i ddod yn ddynodwr ymarferol a mesuradwy yr ymddiriedir ynddo ar gyfer cyflogaeth, gan gefnogi cyflogwyr i wneud newid parhaus a gwella canlyniadau i bobl anabl.

Amcanion allweddol

Ymysg yr amcanion cyffredinol ar gyfer cynllun Hyderus o Ran Anabledd diwygiedig mae:

- **Sefydlu safonau clir a blaengar gyfer pob lefel o'r cynllun**, gan sicrhau tryloywder, cysondeb a phrosesau ymarferol sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gyflogeion anabl.
- **Ymgorffori atebolrwydd** drwy gynnwys llais cyflogeion a phrofiad bywyd mewn prosesau dylunio ac asesu.
- **Gwella tryloywder a mesur effaith** drwy brosesau casglu data, cysoni cenedlaethol, ac adrodd hygyrch.
- **Hyrwyddo diwylliant cynhwysol a gwelliant parhaus** drwy fabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd, gan roi adnoddau i reolwyr ac ysgogi newid diwylliannol drwy arweinyddiaeth a rhwydweithiau cymheiriaid.
- **Grymuso BBaCh a chyflogwyr lleol** â chymorth wedi'i deilwra, pecynnau cymorth, mentora a strategaethau ymgysylltu rhanbarthol.
- **Cyflwyno dulliau dilysu** i sicrhau credadwyedd ac adborth cyson ymhlith sefydliadau Hyderus o Ran Anabledd.

Canlyniadau bwriadedig

- Fframwaith clir a blaengar sy'n cynnwys safonau ymarferol a phrosesau wedi'u symleiddio, y ceir tystiolaeth ohono pan fydd pob cyflogwr sy'n cymryd rhan yn cyrraedd y safonau gofynnol.
- Atebolrwydd a thryloywder gwell gyda'r Adnodd Parodrwydd yn nodi profiadau bywyd, data a dilysiad i ysgogi effaith fesuradwy.
- Diwylliant o gynhwysiant a gwelliant parhaus a gefnogir gan adnoddau wedi'u teilwra ac asesiadau parodrwydd sy'n helpu cyflogwyr, gan gynnwys BBaCh, i leihau rhwystrau a hyrwyddo tegwch yn y gweithle.

Sut beth yw llwyddiant

- Cynllun dibynadwy a chredadwy gyda safonau clir a blaengar a phroses ddilysu gymesur y mae cyflogwyr a chyflogeion anabl yn cydnabod ei bod yn deg, yn effeithiol, ac y gellir ei hehangu.
- Cyfranogiad cynhwysol gan gyflogwyr o bob maint, gyda llwybr penodol i BBaCh yn cynnig cymorth wedi'i deilwra, gofynion tystiolaeth wedi'u symleiddio ac ymgysylltiad rhanbarthol cryf.
- Canlyniadau gwell yn y byd go iawn i gyflogeion anabl, wedi'u hysgogi gan brofiad uniongyrchol wedi'i ymgorffori, hyfforddiant hygyrch i reolwyr a gwelliannau mesuradwy o ran recriwtio, cadw a datblygu.

- Gweladwyedd ac ymgysylltiad gwell yn genedlaethol, drwy ganllawiau ymarferol sy'n cyd-fynd â fframweithiau llywodraethu ehangach a rhwydwaith DU gyfan sy'n hyrwyddo cyflogwyr cynhwysol ac yn rhannu arferion gorau.

Cyd-destun strategol

Datganiad problemus

Er bod y cynllun Hyderus o Ran Anabledd wedi'i sefydlu'n dda, nid yw'n cynnwys yr eglurder, y cysondeb na'r atebolrwydd sydd eu hangen i ysgogi newid ystyrion o ran cyflogaeth anabledd. Mae adborth gan randdeiliaid yn dangos bod cyflogwyr, yn enwedig BBaCh, yn ei chael hi'n anodd ymdopi â disgwyliadau'r cynllun, ac mae llawer o bobl yn nodi na cheir llawer o dystiolaeth o effaith yn y byd go iawn.

Canfyddir bod prosesau dilysu allanol yn anghyson ac yn dibynnu'n ormodol ar hunanasesiad, ac nad yw dulliau adrodd yn llwyddo i nodi canlyniadau sydd o bwys i gyflogeion anabl. Heb ddiwygiad, mae perygl na fydd y cynllun yn fwy nag arwydd symbolaidd, yn hytrach na ffactor credadwy sy'n ysgogi cynhwysiant.

Y sail dystiolaeth

Gan ddefnyddio ymgysylltiad eang â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyflogwyr, pobl anabl ac arbenigwyr yn y sector, rydym wedi nodi pedair blaenoriaeth strategol i atgyfnerthu'r cynllun Hyderus o Ran Anabledd. Mae'r blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu'r angen am safonau anneddfwriaethol, cymorth wedi'i deilwra ar gyfer anghenion amrywiol cyflogwyr, a gwelededd gwell i ysgogi ymgysylltiad ac effaith:

- **Safonau Cadarn a Dilysiad Annibynnol** - Cyflwyno aelodaeth fwy llym â chyfyngiadau amser a safonau gofynnol blaengar, wedi'u cefnogi gan ddulliau o gael adborth gan gyflogeion. Grymuso rhanddeiliaid strategol i gyd-ddylunio proses ddilysu dryloyw, yn enwedig ar gyfer lefelau uwch y cynllun.
- **Llwybr BBaCh Cynhwysol a Chymorth wedi'i Deilwra** – Datblygu a phrofi llwybr BBaCh penodol sy'n cynnal safonau cyson â gofynion tystiolaeth cymesur. Cynnig cyngor pwrpasol, ymgysylltiad rhanbarthol a phrosesau wedi'u symleiddio i fynd i'r afael â heriau unigryw a wynebir gan fusnesau bach.
- **Effaith sy'n Canolbwyntio ar Gyflogeion a Chanlyniadau yn y Byd Go Iawn** – Ymgorffori llais cyflogeion a phrofiadau bywyd ym mhob rhan o'r cynllun. Archwilio hyfforddiant hygyrch ar gyfer rheolwyr llinell i atgyfnerthu arferion cynhwysol a gwella lefelau cadw.
- **Ymgysylltiad Strategol a Gwelededd** – Cyd-ddatblygu canllawiau ymarferol â chyflogwyr a'u cysoni â fframweithiau ehangach y Llywodraeth, gan gynnwys y Gwasanaeth Swyddi a Gyrfaedd. Sefydlu rhwydwaith gweladwy ledled y DU gyda chynrychiolaeth genedlaethol a rhanbarthol i hyrwyddo cyflogwyr cynhwysol ac atgyfnerthu credadwyedd.

Cysoni â'r llywodraeth

Roedd yr adborth gan randdeiliaid yn tynnu sylw at bwysigrwydd prosesau integreiddio cryfach rhwng y cynllun Hyderus o Ran Anabledd a mentrau llywodraethu ehangach i sicrhau cydlynid, lleihau achosion o ddyblygu a gwella effaith.

Amcanion a Mesurau Llwyddiant

Amcanion

Ar draws y pedair blaenoriaeth strategol a nodwyd, mae'r amcanion canlynol:

- **Safonau Cadarn a Dilysiad Annibynnol** - Ail-lansio a threialu safonau gwell ar draws tair lefel y cynllun ochr yn ochr â phroses ddilysu dryloyw a chredadwy sy'n ysgogi gwelliant parhaus ac yn cefnogi arferion blaengar gan gyflogwyr.
- **Llwybr BBaCh cynhwysol a chymorth wedi'i deilwra** – Cyd-ddylunio a phrofi llwybr cymesur wedi'i symleiddio ar gyfer busnesau bach a chanolig (BBaCh) i ymgysylltu'n hyderus â'r cynllun Hyderus o Ran Anabledd diwygiedig ac ymgorffori arferion cyflogaeth cynhwysol.
- **Effaith sy'n Canolbwyntio ar Gyflogeion a Chanlyniadau yn y Byd Go Iawn** – Hyrwyddo llais cyflogeion anabl a threialu ymyriadau ymarferol sy'n atgyfnerthu prosesau cadw ac yn meithrin cynhwysiant gwirioneddol yn y gweithle.
- **Ymgysylltiad Strategol a Gwelededd** - Adeiladu rhwydwaith cyflogwyr cryf a chydweithredol sy'n hyrwyddo arferion cynhwysol ac yn cysylltu busnesau o fewn llwybrau clir â chymorth ac adnoddau, sy'n cyd-fynd â mentrau ehangach y llywodraeth.

Metrigau Llwyddiant

Wrth i ni gyflwyno diwygiadau i'r cynllun Hyderus o Ran Anabledd, mae'n bwysig deall a ydynt yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gyflogwyr a phobl anabl. Rydym am roi dull gwerthuso cymesur ar waith sy'n adlewyrchu adnoddau sydd ar gael ac yn rhoi mewnwelediad ystyrlon.

Nod ein gwerthusiad fydd ateb cwestiynau allweddol am effaith diwygiadau gan ddefnyddio cymysgedd o ddulliau ymchwil, a allai gynnwys (yn amodol ar gadarnhad Gweinidogol):

- **Damcaniaeth newid** – Gallem fapio sut y disgwylir i'r diwygiadau weithio, o'r mewnbyn a roddwn, i'r newidiadau byrdymor ar gyfer cyflogwyr, a'r buddiannau tymor hwy yn y pen draw i bobl anabl. Mae hyn yn ein helpu i brofi tybiaethau ac i ddeall beth sy'n ysgogi canlyniadau cadarnhaol.
- **Grŵp Peilot a Chymharu** – Gallem hefyd gynnal cynllun peilot gyda grŵp o gyflogwyr a chymharu eu profiadau â grŵp "busnes fel arfer". Byddai hyn yn ein helpu i weld a wneir newidiadau i'r diwygiadau yn hytrach na thueddiadau ehangach. Byddai angen i'r ddau grŵp fod yn ddigon mawr i sicrhau dadansoddiad ystyrlon.
- **Cymharu Grwpiau Cyflogwyr Gwahanol** - Ar gyfer aelodau newydd y cynllun Hyderus o Ran Anabledd, gallem ystyried casglu data sylfaenol a dilynol. Gallem hefyd gymharu aelodau presennol, aelodau newydd ac unigolion nad ydynt yn aelodau i nodi unrhyw wahaniaethau y gellir eu priodoli i'r diwygiad.
- **Arolygon Cyflogwyr** - Byddai arolygon ar ddechrau a diwedd y peilot yn nodi newidiadau o ran agweddau ac arferion. Lle y bo'n bosibl, gallem ddefnyddio cwestiynau o arolygon Hyderus o Ran Anabledd blaenorol i olrhain cynnydd dros amser (er enghraifft, gofyn i gyflogwyr a ydynt yn credu bod ymuno â'r cynllun Hyderus o Ran Anabledd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sefydliad).
- **Byddai cyfweiliadau ansoddol**, gyda chyflogwyr a chyflogeion yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar y modd y mae sefydliadau yn cefnogi cyflogeion anabl a'r rhai sy'n rheoli cyflwr iechyd hirdymor. Er enghraifft, gallem archwilio agweddau a chanfyddiadau'r broses ddilysu newydd yn fanwl.
- Data ar **wybodaeth reoli** – Gallem hefyd ddefnyddio data 'amser real' lle byddant ar gael i fonitro tueddiadau a chanlyniadau. Er enghraifft, gallem wirio'r amser cwblhau cyfartalog pan fydd cyflogwyr yn cwblhau ffurflenni aelodaeth Hyderus o Ran Anabledd, i fesur y baich gweinyddol.

Dull cyflwyno

Camau a Cherrig Milltir

Cam	Gweithgareddau Allweddol	Dyddiad Carreg Filltir
Cam 1: Sefydlu a Chynllunio	<ul style="list-style-type: none">Cadarnhau dyluniad peilot - Safonau, Parthau Arloesedd, Grwpiau Profi gan gynnwys cymysgedd rhanbarthol/sector.Dechrau ail-ymgysylltu â rhanddeiliaid	Erbyn mis Ionawr 2026
Cam 2: Treialu	<ul style="list-style-type: none">Cadarnhau safonau, dulliau ac adnoddau diwygiedig cyn lansio'r cynllun peilotLansio Gweithgaredd Peilot ar draws y grwpiau profiPennu'r cynnig / angen am hyfforddiant i reolwyr llinellDiffinio prosesau a dulliau ar gyfer data sylfaenol ac adborthSefydlu rhwydweithiau cymorth	Erbyn mis Mehefin 2026
Cam 3: Gwerthuso a Mireinio	<ul style="list-style-type: none">Dadansoddi canlyniadau peilot ac adborth gan rhanddeiliaidMireinio elfennau o'r cynllun sy'n seiliedig ar y cynllun peilot ac adborthSicrhau cysondeb â chynnig ehangach y Llywodraeth ar gyfer cydlyniant	Erbyn mis Hydref 2026
Cam 4: Paratoi ar gyfer ail-lansio	<ul style="list-style-type: none">Paratoi i ail-lansio'r cynllun 10 mlynedd ers ei sefydluDatblygu brand diwygiedigParatoi i lansio canllawiau, dulliau, adnoddau diwygiedig (fformatau/ieithoedd amgen)Cadarnhau strwythur a safonau'r cynllun gan gynnwys prosesau cefnogol	Erbyn mis Tachwedd 2026
Cam 5: Cyflwyno'n Llawn a Monitro	<ul style="list-style-type: none">Lansio'r cynllun diwygiedig ledled y DUYmgorffori dolenni adborth parhaus, rhwydweithiau cymorth, prosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid a phrosesau trin y cyfryngau.	O fis Rhagfyr 2026

Er mwyn cefnogi cyflogwyr i gyrraedd safon newydd y cynllun Hyderus o Ran Anabledd, rydym yn ystyried cyflwyno Adnodd Parodrwydd. Bydd yr adnodd ymarferol hwn yn helpu sefydliadau i wneud y canlynol:

- Asesu eu gallu presennol
- Nodi bylchau o ran polisi, proses a diwylliant
- Blaenoriaethu gwelliannau'n effeithiol

Bydd yr adnodd yn rhoi arweiniad wedi'i deilwra i sicrhau gweithrediad symlach a chyflymach. Drwy gyfuno camau cydymffurfiaeth clir â mewnwleidiad defnyddioldeb, bydd yn helpu cyflogwyr i gyflawni newidiadau ystyrion sy'n gwella canlyniadau i bobl anabl.

Dibyniaethau

Er mwyn rhoi diwygiadau'r cynllun Hyderus o Ran Anabledd ar waith, bydd angen buddsoddi mewn gallu digidol, cymorth cyflogwyr a chydlyniant trawslywodraethol i sicrhau cysondeb a hygyrchedd ledled y DU. Er bod y cynllun yn wirfoddol o hyd, gall newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol ddylanwadu ar ddisgwyliadau cyflogwyr. Ein nod yw creu'r seilwaith a'r dulliau cywir fel y gall cyflogwyr fabwysiadu unrhyw safonau newydd yn rhwydd a sicrhau gwelliannau ystyrion ar gyfer pobl anabl.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Gyda phwy y byddwn yn gweithio

- **Aelodau Presennol y Cynllun** – rhannu eu profiadau i lywio a phrofi'r safonau newydd.
- **Awdurdodau Rhanbarthol a Llywodraethau Datganoledig** – sicrhau bod diwygiadau yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol ac yn cynnig cymorth cyson ledled y DU.
- **Cyflogwyr Mawr a Chyrff Dylanwadol** – cynnig mewnwelediad o sefydliadau mawr i atgyfnerthu effaith y cynllun.
- **Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh)** – deall heriau a chyfleoedd unigryw mewn sefydliadau llai er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gweithio i fusnesau o sawl maint.
- **Cyflogwyr sydd ar flaen y gad** – Treialu dulliau arloesol a phennu arferion gorau.
- **Grŵp Arweinwyr Busnes a Grŵp Cyngorwyr Proffesiynol** – rhoi cyngor strategol, arbenigedd sector a chymorth ymarferol.

Diben ymgysylltu

Bydd rhanddeiliaid yn chwarae rôl hanfodol wrth wneud y canlynol:

- Cyd-ddylunio a phrofi dulliau i sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn ddibynadwy ac y gellir eu hehangu.
- Rhoi adborth a thystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio i gyflogwyr a sectorau o feintiau gwahanol.
- Cefnogi prosesau dysgu gan gymheiriaid a gweledd er mwyn ysgogi ymgysylltiad a chyfranogiad ehangach.

Dull gweithredu

Bydd ymgysylltiad yn gydlynol, yn dryloyw ac yn iterus. Byddwn yn defnyddio'r canlynol:

- Pwyntiau cyswllt rheolaidd a dolenni adborth i rannu cynnydd a chasglu gwybodaeth.
- Ymgysylltiad rhanbarthol i adlewyrchu anghenion y farchnad lafur leol.
- Rhwydweithiau dysgu gan gymheiriaid i hyrwyddo arferion gorau ac annog hyder ymysg cyflogwyr.

Canlyniad Disgwyliedig

Bydd y dull hwn yn sicrhau bod gweithgarwch profi a dysgu yn cael ei lywio gan brofiad yn y byd go iawn, yn meithrin ymddiriedaeth ymysg cyflogwyr, ac yn creu tystiolaeth sy'n gynrychioliadol ac y gellir ei ehangu ar draws sectorau a rhanbarthau.

Risgiau a Mesurau Lliniaru

Rydym yn cydnabod bod heriau yn gysylltiedig â diwygio. Ein dull gweithredu yw nodi risgiau'n gynnar, eu rheoli mewn modd tryloyw, a chymhwyso strategaethau lliniaru cymesur i ddiogelu amcanion diwygio a chynnal hyder rhanddeiliaid.

Ar yr adeg hon, ymysg y prif feysydd rydym yn eu monitro mae:

- Risgiau Gwleidyddol a Pholisi – sicrhau bod diwygiadau yn cyd-fynd â blaenoriaethau ehangach o hyd ac yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth gadarn.
- Risgiau Gweithredol – mynd i'r afael â heriau o ran adnoddau a thechnoleg drwy brosesau llywodraethu clir, blaenoriaethu ac ymgysylltiad cryf.
- Risgiau i Enw Da – cynnal ymddiriedaeth drwy ddyluniad cynhwysol, cyfathrebu tryloyw a data cadarn i ddangos effaith.

Drwy gynllunio a chydweithio, ein nod yw sicrhau diwygiadau sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl anabl a chyflogwyr.

Strategaeth Gyfathrebu

Diben

Sicrhau dulliau cyfathrebu clir, cyson ac amserol sy'n meithrin ymddiriedaeth, yn ysgogi ymgysylltiad ac yn cefnogi proses lwyddiannus o brofi diwygiadau Hyderus o Ran Anabledd.

Amcanion

- Codi ymwybyddiaeth o ddiben gweithgarwch profi o fewn y grwpiau targed.
- Rhoi diweddariadau tryloyw ar gerrig milltir, profi cynnydd a chanfyddiadau gwerthuso.
- Annog cyfranogiad mewn gweithgarwch profi a hyrwyddo dysgu gan gymheiriaid drwy rwydweithiau cyflogwyr.
- Rheoli disgwyliadau a lliniaru risg i enw da drwy negeseua rhagweithiol.

Cynulleidfaoedd Allweddol

- Cyflogwyr (aelodau ac unigolion nad ydynt yn aelodau, meintiau a sectorau amrywiol).
- Cyflogeion anabl a grwpiau cynrychioliadol.
- Rhanddeiliaid mewnol.
- Rhanddeiliaid allanol.

Sianeli

- Tudalennau canllaw ac adnoddau.
- Negeseuon e-bost wedi'u targedu, cylchlythyrau, sesiynau briffio rhanddeiliaid.
- Digwyddiadau ymgysylltu.
- Astudiaethau achos yn tynnu sylw at arferion cynhwysol ac arloesedd.

Amseriad

- Cam 1 – Rhannu amcanion diwygio a threialu cyfleoedd.
- Cam 2 – Rhannu diweddariadau cynnydd a straeon llwyddiant.
- Cam 3 – Cyfleu canfyddiadau a phrosesau mireinio.
- Cam 4-5 – Deunydd ymgyrchu i'w cyflwyno ac ymgysylltu parhaus.